GORCHYMYN TRAFFORDD YR M4 (FFYRDD YMUNO AC YMADAEL WRTH GYFFORDD 48 (YR HENDY), SIR GAERFYRDDIN) (CYFYNGIADAU CYFLYMDER 30 MYA A 50 MYA DROS DRO) 2021

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar draffordd yr M4, neu gerllaw iddi, wrth Gyffordd 48 (yr Hendy), Sir Gaerfyrddin.

Effaith y Gorchymyn yw gwneud y canlynol dros dro:

i. gosod terfyn cyflymder o 30 mya ar y darnau o draffordd yr M4 a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn; a

ii. gosod terfyn cyflymder o 50 mya ar y darnau o draffordd yr M4 a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 11 Tachwedd 2021. Disgwylir y bydd y cyfyngiadau dros dro yn weithredol o 00:01 o'r gloch ar 11 Tachwedd 2021 hyd 23:59 o'r gloch ar 1 Ebrill 2022 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

THE M4 MOTORWAY (SLIP ROADS AT JUNCTION 48 (HENDY), CARMARTHENSHIRE) (TEMPORARY 30 MPH & 50 MPH SPEED LIMITS) ORDER 2021

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the M4 motorway at Junction 48 (Hendy), Carmarthenshire.

The effect of the Order is to temporarily:

i. impose a 30 mph speed limit on the lengths of the M4 motorway described in Schedule 1 to this Notice; and

ii. impose a 50 mph speed limit on the lengths of the M4 motorway described in Schedule 2 to this Notice.

The Order comes into force on 11 November 2021. The temporary restrictions are expected to operate from 00:01 hours on 11 November 2021 until 23:59 hours on 1 April 2022 or until the temporary traffic signs have been permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

J SADDLER
Transport
Welsh Government

ATODLEN 1
Terfyn cyflymder 30 mya dros dro

Y darn o ffordd ymadael tua'r dwyrain Cyffordd 48 yr M4 sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r A4138 hyd at bwynt 25 o fetrau i'r gogledd-orllewin o'r gyffordd honno.

Y darn o ffordd ymuno tua'r dwyrain Cyffordd 48 yr M4 sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r A4138 hyd at bwynt 82 o fetrau i'r de-ddwyrain o'r gyffordd honno.

Y darn o ffordd ymadael tua'r gorllewin Cyffordd 48 yr M4 sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r A4138 hyd at bwynt 37.5 o fetrau i'r de-ddwyrain o'r gyffordd honno.

Y darn o ffordd ymuno tua'r gorllewin Cyffordd 48 yr M4 sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r A4138 hyd at bwynt 100 metr i'r gogledd o'r gyffordd honno.

SCHEDULE 1
Temporary 30 mph speed limit

The length of the M4 Junction 48 eastbound exit slip road that extends from its junction with the A4138 to a point 25 metres north-west of that junction.

The length of the M4 Junction 48 eastbound entry slip road that extends from its junction with the A4138 to a point 82 metres south-east of that junction.

The length of the M4 Junction 48 westbound exit slip road that extends from its junction with the A4138 to a point 37.5 metres south-east of that junction.

The length of the M4 Junction 48 westbound entry slip road that extends from its junction with the A4138 to a point 100 metres north of that junction.

ATODLEN 2
Terfyn cyflymder 50 mya dros dro

Y darn o ffordd ymadael tua'r dwyrain Cyffordd 48 yr M4 sy'n ymestyn o bwynt 25 o fetrau i'r gogledd-orllewin o'i chyffordd â'r A4138 hyd at bwynt 500 metr i'r gogledd-orllewin o'r gyffordd honno.

Y darn o ffordd ymadael tua'r gorllewin Cyffordd 48 yr M4 sy'n ymestyn o bwynt 37.5 o fetrau i'r de-ddwyrain o'i chyffordd â'r A4138 hyd at bwynt 200 metr i'r de-ddwyrain o'r gyffordd honno.

SCHEDULE 2
Temporary 50 mph speed limit

The length of the M4 Junction 48 eastbound exit slip road that extends from a point 25 metres north-west of its junction with the A4138 to a point 500 metres north-west of that junction.

The length of the M4 Junction 48 westbound exit slip road that extends from a point 37.5 metres south-east of its junction with the A4138 to a point 200 metres south-east of that junction.